Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlv. MEHEFIN, 1945. Rhif 6.

Dadl Gyhoeddus Ganrif yn ol.

Yn hâf 1841 teithiai'r Parch. John Jones, Llangollen (Rhydybont cyn hynny), trwy Forgannwg a Mynwy i ddarlithio yn addoldai'r Annibynwyr ar Fedydd a chai gryn wrthwynebiad mewn rhai cylchoedd oddiwrth weinidogion a lleygwyr y Bedyddwyr. Y diwedd fu iddo gael sialens gan ei feirniaid i'w cwrdd mewn dadl gyhoeddus ar y pwnc, a chytunwyd i dderbyn yr hér. Trefnwyd cwrdd yn Rhymni, dydd Llun cyntaf o Dachwedd a bod y Beddyddwyr i ddewis eu cynrychiolydd. Dewisiwyd ganddynt y Parch. T. G. Jones, athro yng Ngholeg Hwlffordd.

Trôdd y tywydd yn ffafriol. Caed dwy wagen yn llwyfannau i'r ddwyblaid. Daeth tyrfa anferth o bobl ynghyd, dros ddeng mil, fel y tybid. Dewisodd pob plaid Gadeirydd i gadw chwarae teg. Yr oedd yno ddau-ar-bymtheg o weinidogion Annibynnol, saith o fyfyrwyr, chwech o Aberhonddu ac un o Hanover, a deg o bregethwyr cynorthwyol Annibynnol. Cynrychiolid y Bedyddwyr gan bymtheg o weinidogion, Wesleaid gan ddeuddeg a'r Methodistiaid gan dri, yn ychwanegol i'r ddau ddadleuydd.

Ymgymerodd y Parch. Rd. Jones, Sirhowy, a thri o'r myfyrwyr i godi cofnodion o'r ymdrafodaeth ac argraffwyd hwy. Maent yn dra addysgiadol gan eu bod yn adlewyrchu seiliau cred a dull ymresymu'r ddwy blaid y pryd hwnnw.

Trefnwyd nad oedd neb i gymryd rhan yn y ddadl ond y ddau brif ddadleuydd a'u bod i'w cyfyngu eu hunain yn holiol i'r pwnc o fedydd, ac na chaniateid neb o'r dorf i'w rhwystro drwy wneud sylwadau beirniadol nu gellweirus. Caniateid dwy awr i'r ddadl a dechreuodd am hanner awr wedi dau prynhawn Llun. Bu rhaid gohirio am bump o'r gloch hyd drannoeth am ddeg yn y bore. Daeth torf anferth at ei gilydd eilwaith, ac anobeithiol oedd eu cynnwys yn y capel mwyaf yn y lle. Felly esgynnodd cynrychiolwyr pob plaid i ben dau bortico a thop fflat iddynt tu faes i ddrysau

capel yr Annibynnwyr. Methwyd â therfynu'r ddadl cyn hanner dydd, a gohiriwyd i gael lluniaeth a chwrdd am ddau o'r gloch. Cytunwyd tynnu'r ddadl i ben erbyn pump o'r gloch, ond terfynodd mewn hanner awr mewn cythrwfl a stŵr enbyd.

O'n safbwynt ni heddiw, gwastraff amser fu'r cwbl a phlentynaidd yr ymresymu, ond i'r dorf honno, yr oedd y mater a'r dull yn anhraethol bwysig.

Agorwyd y ddadl gydag ensyniadau o bob ochr a'r dorf yn dechrau dangos ei thymer ; o'r diwedd cydiwyd yn y pwnc o ddeiliaid bedydd. Adnod i brofi fod baban yn addas ddeiliad bedydd oedd cais y Bedyddwyr drwy'r prynhawn, a'r Annibynnwyr yn ceisio ei berswadio fod y comisiwn i "ddysgu'r holl genhedloedd gan eu bedyddio," yn cynnwys y babanod. Bu taeru a checru ar y geiriau "holl" a "dysgu," a John Jones yn medru cael agweddau cywrain ac anarferol o ystyr i'r geiriau. Yr oedd ei fedr fel dadleuydd yn drech na'i wrthwynebydd a grym y dorf mewn cydymdeimlad ag ef ac yn ategu ei ergydion i'r entrychion.

Yn yr ail eisteddiad, y dull o fedyddio oedd y pwnc. Bu cryn siarad ar y geiriau Groeg "eis" ac "epi," ac âi John Jones i'r Hen Destament i brofi mai "at," a "min" y dwr a olygid, pan ddefnyddid y ddau ragair hyn o flaen ffynnon neu afon. Gwrthodai ei wrthwynebydd ei apêl at yr Hen Destament, ond llithrodd trwy gydio "dative case" a'r "eis," er mawr fantais i John Jones. Rhyfedd fel y gallai John Jones blygu gramadeg i gefnogi ei safbwynt. Bu'r annerch yn *Llyfr yr Actau* yn gyfle da iddo ddangos ei fedr a gwanhau ei wrthwynebydd. Cododd yr athro osodiad Paul am "gladdu yn y bedydd" fel ei bwynt olaf a defnyddiodd gais y cyfoethog y tu hwnt am i Lazarus "drochi pen ei fys" mewn dwfr, i helpu deall y claddu. Llithrodd John Jones ychydig gydag ystyr y "genitive case" mewn brawddeg Roeg, a chyhuddodd yr athro ef o amau ysbrydoliaeth, a'i alw yn "deist" ac yn ddisgybl Tom Paine.

Bu hyn yn achos i'r dorf ffromi'n erchyll a diangodd y Bedyddwyr gan adael y maes i'w wrthwynebydd. Pe buasai'r cyfieithiad diwygiedig Saesneg yn eu llaw y pryd hwnnw, arbedasid pedair awr o ddadlau, gan mai ar adnodau sy'n absennol o hwnnw y pwysid fwyaf. Yr oedd sail ymresymu'r ddau yn ansicr a'u dull o ymresymu yn anwybyddu tystiolaeth hanes yn gyfangwbl, ac felly yn anwyddonol. Ni fu'r dorf na'r wlad damaid yn nes i dorri'r ddadl ar ôl yr helynt i gyd, ond deffrowyd teimladau digofus gan yr ymryson a gymrodd genhedlaeth i'w lliniaru.

Ac oni ellir dweud am lawer iawn o'r dadlau a fu ymhlith Cristnogion yn y gorffennol ei fod yn gynnyrch adeiladu ar seiliau ansicr ac yn ddiystyr o egwyddor datblygiad mewn hanes? Pe nithid hefyd o'n cred gynnyrch breuddwydion y gorffennol, byddai llai o achos cweryla yn ein plith.

"Y Newid yn y Safonau Moesol."

Teitl y llyfryn cyntaf yng nghyfres newydd y Lindsey Press, *Religion in a changing world* : *Unitarians state their faith,* yw pennawd yr ysgrif hon. Pris y llyfryn yw chwe cheiniog, a'r awdur yw'r Parchedig Raymond V. Holt, M.A., B.Litt., Prifathro Coleg yr Undodiaid, Manceinion. Ychydig, hwyrach, o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd sy'n ddarllenwyr cyson o gynhyrchion gwasg yr enwad. Colled ydyw hyn oherwydd y mae'n ein cadw yn anwybodus am feddylwyr mwyaf blaenllaw ein mudiad. Dyna'r unig esgus dros adrodd yma argiwment Mr. Holt.

Mewn llawer modd bu mwy o gyfnewid yn hanes dyn yn ystod y ddau can mlynedd diwethaf nag yn ystod y ddwy fil blynyddoedd cyn hynny. Gwir mai cyfnewidiol ydyw hanes dyn erioed. Serch hynny, gall y cyfnewidiadau ddod yn ddigon araf, a'r cenedlaethau'n ystyried dilyn ôl yr hynafiaid yn ddoethineb. Diwedd ffordd felly o fyw ydyw dirywiad. Daw cyfnewidiadau disymwth—yr hen yn diflannu a'r gwareiddiad newydd yn cymryd ffurf.

Y mae cyfnewidiadau'r oes bresennol yn ddigon amlwg i bawb. Gan fod pob bywyd yn y gwaelod yn un, y mae cyfnewid yn un agwedd ohono yn dylanwadu ar yr agweddau eraill. Y mae'r cyfnewidiadau technyddol ac economaidd yn dylanwadu ar y meddyliol, moesol, a chrefyddol.

Collodd yr hen safonau eu hawdurdod. Nid yw safonau moesol y gorffennol yn hawlio ufudd-dod trylwyr heddiw fel cynt. Nis derbynir fel safonau absoliwt. Gwir y troseddid hwy yn fynych, ond teimlai'r troseddwyr bangfeydd cydwybod o achos hynny. Credent eu bod ar fai.

Nodwedd pobl heddiw ydyw digio pan ddywedir wrthynt nad ydynt yn berffaith. Ni theimlant i'r byw fod gagendor rhwng yr hyn ydynt a'r hyn y dylent fod. Lle y deil yr hen safonau i reoli bywydau dynion, gwnant drwy rym arferiad yn hytrach na thrwy'r argyhoeddiad fod eu gwreiddiau yn natur y cyfanfyd neu yn Ewyllys Duw. Ystyrrir yr hen safonau fel gwaith dyn, a gall dyn ddadwneud ei waith.

Canlyniad canrifoedd o ymdrech yw'r hen safonau. Ceisia dynion weithiau feddwl i'r hen safonau golli eu hawdurdod am nad oedd daioni ynddynt. Syniad arwynebol a pheryglus ydyw hwn, weithiau'n gais i gyfiawnhau methiant moesol. Gŵyr yr hanesydd beth yw gwerth yr hen safonau. Bydd y byd yn dlotach o'u colli. *Yr unig ffordd i'w cadw i wasanaethu'r dyfodol ydyw eu gwneud yn rhan o'r bywyd newydd sy'n llifo o'n hamgylch ym mhob man.*

Nid yw'r cynnydd moesol wedi cyd-gerdded a'r cynnydd mecanyddol.

Yr oedd yr hen safonau yn dda, ond nid oeddynt yn ddigon da. Dyna'r eglurhad ar y sefyllfa druenus bresennol—ein cynnydd mecanyddol wedi ennill tir ar ein cynnydd moesol, a'r straen mor fawr nes peri i adeiladwaith bywyd dyn fynd i bwll. Nid yn unig methodd dyn ennill mwy o reolaeth arno'i hunan ond collodd olwg ar y wybodaeth a fu ganddo unwaith am wir ystyr ei natur ei hun.

Pan welwyd fod yr hen safonau yn annigonol, yn fynych taflwyd ymaith y daioni a oedd ynddynt.

Am nad oeddynt yn ddigon gwrthodid y daioni a oedd ynddynt. Collwyd y safonau moesol y bu dynion unwaith yn eu cydnabod. Ystyrrid hwy fel o wneuthuriad dyn ac nid fel rhan o drefn y cyfanfyd, fel rhai y mae'n rhaid talu'r pris am eu torri mewn trueni a thrychineb. Dyma a welir—dyn, yn ei ymchwil am y gwirionedd, yn ennill concwest ar bwerau Natur, a defnyddir y goncwest honno gan ddynion sy'n malio dim am y gwirionedd, ond yn hytrach ceisiant dywyllu meddyliau dynion trwy ddefnyddio anwiredd a thwyll er mwyn eu hunan-les. Gwnaethpwyd y darganfyddiadau hyn mewn gwareiddiad, er ei holl amherffeithrwydd, a gydnabyddai'r angen am gyfiawnder a chariad, a chanlyniad y darganfyddiadau yw'r creulonder a'r anghyfiawnder pennaf a welodd y byd.

Mynnir esbonio datblygiad yn nhermau strygl yn hytrach nag yn nhermau cyd-weithredu. Gwyrdroir athrawiaeth bywydeg (biology) am "y trecha', treisied" (survival of the fittest). Ni ddywed yr athrawiaeth honno fwy na bod y ffurf o fywyd sydd fwyaf addas i'r amgylchedd yn parhau, ond gwyrdroir hi i feddwl mai'r hyn sydd yn parhau ydyw'r gorau. Mewn cymdeithas o ddynion bwystfilaidd y dynion mwyaf bwystfilaidd sy'n parhau : felly dyledswydd dyn ydyw bwystfileiddio'i natur ! Gwyrdroir athrawiaeth datblygiad i feddwl y ceir gwir ystyr bywyd dyn yn y cyflyrau iselaf y cododd dyn ohonynt. Edrychir ar ddyn fel anifail yn berchen ar allu i feddwl, a defnyddia ei ddeall er mwyn dinistrio nodweddion gorau ein dynoliaeth, nodweddion meddwl, enaid ac ysbryd sy'n ddwyfol a dynol ! Y gwir yw, diwedd y proses sy'n rhoi i ni ystyr ein bywyd, ac nid ei ddechrau.

Canlyniad y dallineb meddyliol, moesol ac ysbrydol hwn yw'r trychineb presennol.

Onid agorir llygaid dynion i greu gwell trefniant o fywyd, bydd pob dioddef ac aberth yn wastraff. Er mwyn creu'r trefniant newydd hwn rhaid adfer nid yn unig y safonau moesol a gollwyd ond rhaid hefyd creu rhai newydd.

Ymddengys adwaith y trychineb ar feddyliau dynion mewn gwahanol ffurfiau.

1. *Y mae llaweroedd wedi eu drysu'n lân.*

Anobeithiant o weld defnyddio cyraeddiadau uchaf dyn i ddinistrio'r ddynoliaeth. Collant eu ffydd yn y ddynoliaeth, a chredant mai bwystfil yn ei hanfod ydyw dyn. Ond fel arall yn hollol y mae'r gwirionedd. Ni chollodd dynion eu ffydd oherwydd y gweithredoedd hyn : gwnant y gweithredoedd hyn oherwydd iddynt golli eu ffydd mewn dyn, y ffydd mai plant Duw ydym.

Daeth trychineb ar fyd am fod dynion wedi defnyddio'r byd i'w dibenion eu hunain, yn hytrach na defnyddio'u bywydau i hyrwyddo pwrpas y byd. Yn llawn o achwynion, mynnant gredu nad oes bwrpas yn y byd. Dyma'r dynion sy'n ysglyfaeth i bob Unben.

2. *Dywed eraill : Gadewch i ni fynd yn ôl.*

Gwir fod mwy o ruddin yn y dynion hyn na'r lleill. Gwelant lawer sy'n werthfawr mewn perygl o fynd ar goll. Ond ofnant beth a ddigwydd, a dywedant : Peidiwn â meddwl drosom ein hunain. Plygwn i ryw awdurdod allanol. Arweiniodd rheswm ni ar gyfeiliorn.

Gwelwyd yr awdurdodaeth a'r afresymoliaeth newydd yn codi pennau ar rannau helaeth o gyfandir Ewrop nes gwahanu pob gwrthsafiad yn erbyn yr Unbeniaid.

Ond ni ellir mynd yn ôl. Pwy bynnag sydd am fynd yn ôl i'r amser pryd yr oedd y rhaw yn offeryn pennaf amaethyddiaeth, ni all, a phe gwyddai fwy am ddynolryw ni fynnai fynd yn ôl.

Ni all dyn fynd yn ôl yn yr ymdrech am ddaioni, prydferthwch, gwirionedd, cyfiawnder, oherwydd mai mynegiant o strygl barhaus dyn i sylweddoli'r perffaith ydynt.

Colli ffydd a cheisio mynd yn ôl—gwrthsefyll proses bywyd ydyw hynny, a'r canlyniad yw—yr anffodion y ceisia dyn ddianc rhagddynt yn digwydd. Ceisio mynd yn ôl—anffyddlondeb i wir natur dyn ydyw, oherwydd wrth natur y mae dyn yn fod creadigol.

3. *Ond dywedwn ni : Cerddwn rhagom.*

Dim ond trwy eu corffoli ym mywyd yr oes newydd y gellir cadw gwerthoedd yr hen safonau. Rhoddwn bob cymorth i greu ffurf newydd o fywyd, a mynnwn gadw yn y bywyd hwnnw ddaioni'r gorffennol, ei gadw nid fel rhywbeth y mae bywyd wedi mynd allan ohono ond ei gadw fel rhywbeth sy'n fyw eto ar y lefel uwch.

[*I'w barhau*].

WEDI CAEL DIGON.—Am fwy na hanner awr bu'r pregethwr wrthi'n clodfori rhagoriaethau'r proffwydi mawr. O'r diwedd dyma fe'n disgyn fel barcud ar y proffwydi bach. "Amos ! Amos ! !" gwaeddai nerth ei lais, "Pa le y rhown ni Amos ?" Daeth llais blinedig o sêt y gornel, "Rhowch e fan hyn. 'Rwy' i'n mynd."

Y Gymdeithas Gyffredinol.

Y Cyrddau Blynyddol.

Mai 8fed, yn Neuadd Llyfrgell Dr. Williams estynnodd y Llywydd, Mr. Alfred Pilling, O.B.E., Y.H. (Bolton) groeso i gynrychiolwyr y cynulleidfaoedd. Nid y peth a ddywedodd, er fod hwnnw yn gymwys, ond ei ffordd o ddweud a gyflwynodd ei ddoethineb, gwead cartref oddiar wydd swydd Lancaster. Y mae clywed Mr. Pilling yn ddigon i greu ynom yr ymdeimlad o'i dduwioldeb dwfn. Talodd sylw i bwysigrwydd yr amser. (Yr oedd y Prif Weinidog newydd gyhoeddi ar y Radio derfyn y rhyfel yn Ewrop). Cyfeiriodd Mr. Pilling at y gobaith a oedd ym meddwl ei wrandawyr. Yna cymeradwyodd "gyfeillach y tebot," a gobeithiai y byddai gwaith y Gymdeithas yn y dyfodol mor effeithiol ag y bu yn y gorffennol.

Y GWASANAETH BLYNYDDOL.—Yn hwn yr oedd urddas a dwyster addoli. Arweiniwyd gan y Parchedig F. Kenworthy, M.A., B.D. (Walmsley). Cyfeiriodd y pregethwr, y Parchedig R. W. Wilde, M.A., B.Sc., Ph.D., at "godwm y dyranniaeth fwyaf erchyll a bwystfilaidd a dywyllodd ac a lygrodd fywyd Ewrop." "Plygwn yn ostyngedig ac yn ddiolchgar i Dduw fod y nos hir wedi cilio, fod cyfle o'r diwedd i adeiladu eto ddinistr Ewrop a, than ei arweiniad, yr ysbrydiaeth i adeiladu'n well." Mynegodd y pregethwr ddedwyddwch ein calonnau. Yna tarawodd dant tristwch. "Cofiwn am bawb sydd mewn galar, am bawb a ddirboenwyd, am bawb sy'n dioddef. Duw a faddeuo i ni os bydd i ni un adeg eu hanghofio." Llefarodd air o galondid i'r dynion ieuainc sy'n dechrau ar waith y weinidogaeth. "Gobeithiwn y bydd i'ch gweinidogaeth fod yn gyfoethog mewn bendithion. Duw yn rhwydd i chwi, a gwroldeb calon." Gyda chyngor i'r ifanc trodd y pregethwr ei sylwadau at dduwch bygythiol y dyfodol.

Gwelai ef destun cymwys yng ngeiriau Cromwel, "We are upon an engagement very difficult, but praised be the Lord, our spirits are comfortable." Wrth ei gyd-weinidogion dywedodd, "Nid oes yn y Testament Newydd addewid am orchestion esmwyth. Ond nid dyna'r peth. Nyni a alwyd. O'i gymharu â hyn nid oes ddim o bwys. ' Nid chwi a'm dewisasoch i, ond myfi a'ch dewisais chwi.' " Yn ddiwethaf, gan gyfeirio'i sylwadau at aelodau'r Gymdeithas Gyffredinol, pwysleisiodd athrawiaeth y lleiafrif. "Ffolineb ydyw gwneud cyfrif pennau yn safon i'r gwirionedd. Pwy a gai'r bleidlais boblogaidd—Jazz ynte Beethoven, Shakespeare ynte Ethel M. Dell ? . . . Heddiw tueddwn i brisio mudiad wrth ei swn . . . Ond, yn

wir, y mae'r grymusterau creadigol yn gweithredu fel arall. Y maent hwy yn dawel, yn anweledig." Yn ei ddiweddglo cymeradwyodd y pregethwr ei genadwri i bawb. "Mater personol i'r unigolyn yw ei grefydd. Yn ddiamau bydd yn canghennu yn fater cymdeithasol, yn fater o sefydliad, yn fater cydweithredol. Ond y mae'r gwraidd yn yr unigolyn. Oni bydd yno, ni bydd o gwbl. Y peth gorau a allwn ni wneud dros ein crefydd yw ei meithrin ynom ein hunain, a'i byw. Pwysicach yw hynny na sefydliad, pwysicach na brwdfrydedd meddyliol, pwysicach hyd yn oed na huawdledd." Terfynwyd pregeth a oedd yn llawn o argyhoeddiadau, "Wedi ein hadnewyddu yn y dyn oddimewn, byddwn ffyddlon i'r alwedigaeth uchel, ffyddlon i'r weledigaeth a gawsom, a bydded i ni gerdded ymlaen i'r dyfodol anhysbys yn ffyddiog ac yn ddiofn."

MAI 9.—Y CWRDD BUSNES.—Cynhaliwyd yn y Friends' House, Llundain, y Llywydd, Mr. Alfred Pilling, O.B.E., Y.H. yn y gadair. Llefarodd air byr am sefyllfa'r byd. Canwyd yr Anthem Genedlaethol. Gweddiwyd gan y Parchedig C. M. Wright, M.A. (Hampstead).

Hysbysodd y Parchedig M. Rowe, B.A. (Ysgrifennydd y Gymdeithas) ddymuniad Mr. Pilling i'r cyfarfod fynegi diolch iddo am ei wasanaeth heb yr areithiau. Cyn gofyn i'r gynulleidfa am fanllef o gymeradwyaeth, dywedodd Mr. Rowe na ddigwyddodd i unrhyw lywydd o'i flaen weinyddu'r swydd mewn cymaint o anawsterau. Yn ei ateb, dywedodd yntau iddo gael hapusrwydd mawr er cymaint yr anawsterau teithio. Da ganddo'r cyfle i fod yn genhadwr y cyfeillgarwch cydweithredol sy'n rhoi ystyr i undeb eglwysi ac unigolion mewn cymdeithas. Yr oedd yn ffyddiog y byddai ein cynulleidfaoedd yn gadael argraff ar fudiadau crefyddol y cyfnod. Cynigiodd Mr. Pilling fod y Prifathro Raymond V. Holt, M.A., B.Litt., yn cymryd ei le fel Llywydd am 1945-46, a thalodd deyrnged i brofiad cyfoethog Mr. Holt fel gweinidog, ysgolor, ac athro. Pleser mawr iddo ei gysylltu ei hun fel hyn a mab i'r diweddar Barchedig Peter Holt, un y bu'n cydweithio'n ddedwydd ag ef yn y gorffennol.

Cydsyniwyd â'r penderfyniad yn unfryd unfarn, ac wedi diolch am yr anrhydedd traddododd y Prifathro Holt ei araith o'r gadair. Ei destun oedd, "Y mae gennym newyddion da." [Ceir crynhodeb o'i araith mewn rhifyn diweddarach.—*Golygydd*].

Yn Is-Lywydd etholwyd yr Henadur Harold Bailey, M.B.E., gwr adnabyddus yng Nghymru fel cadeirydd y Bwrdd sy'n rheoli Coleg Caerfyrddin.

ADRODDIAD Y CYNGOR A'R CYFRIFON.—Mynegodd Mr. Ronald P. Jones (Y Trysorydd), i'r casgliadau gynhyddu'n

fawr, ond er fod mwy na'r angen yn rhai cyfrifon bydd terfyn y rhyfel yn golygu mwy o wario yn rhai cyfeiriadau. Mabwysiadwyd cynllun i alluogi'r siaradwyr i gyhoeddi barn ar wahanol adrannau'r Adroddiad. Amhosibl croniclo pob barn yma—ni fyddai hynny yn ddoeth—ond cyfeirir at y materion pwysicaf.

YR APEL AM £100,000.—Cyhoeddodd cadeirydd pwyllgor yr Apêl (Mr. Ronald Bartram), fod y cyfanswm (cyfamodau, addewidion, ac arian mewn llaw), ychydig sylltau yn brin o £39,000—y treuliau'n agos i ddau y cant o'r swm a addawyd. Gwerthfawrogid, medd y cadeirydd, waith y trysorydd (Mr. H. B. Moore), a'r Ysgrifennydd (y Parchedig John Kielty). Ar ysgwydd Mr. Kielty y disgynnodd y rhan helaethaf o'r gwaith, a'i frwdfrydedd a'i allu ef sy'n cyfrif am lwydd yr antur.

INTERNATIONAL RELIGIOUS FELLOWSHIP.—Dywedodd Dr. Stanley Kennet (Lerpwl), fod y gyfeillach hon yn benderfynol i gynorthwyo ein cyd-grefyddwyr yn yr Iseldiroedd hyd eithaf ei gallu. Apeliant at ein pobl am ddillad a bwyd. Ategwyd geiriau Dr. Kennett gan y Parchedig George Grieve (Highgate, Llundain), a chyfeiriodd at rai o'r rhwystrau ar ffordd cynorthwyo trigolion Ewrop i adennill eu safle. Fel ein cyd-grefyddwyr yn yr America byddwn ninnau'n awyddus i helpu'r cynulleidfaoedd rhyddfrydig yn Ewrop rydd.

ESSEX HALL.—Mynegwyd amryw farnau am safle'r adeilad. Gobeithiai rhai weld yr adeilad newydd ar yr un seiliau ; dymunai eraill ei symud i fan mwy cyfleus. Ni phenderfynwyd dim yn bendant.

AELODAU'R CYNGOR.—Pasiwyd y penderfyniad i ail-ethol aelodau'r Cyngor. Trwy hyn osgowyd pleidleisio.

DIOLCH.—I'r Trysorydd (Mr. Ronald P. Jones), ac i'r trysoryddion lleol ; i'r Parchedig R. W. Wilde, M.A., B.Sc., Ph.D. (Belfast), y pregethwr apwyntiedig ; i'r Parchedig F. Kenworthy, M.A., B.D. (Walmsley) am gymryd rhannau arweiniol y gwasanaeth ; i gynulleidfa Capel Rosslyn Hill am ei chroeso.

ETHOL.—Etholwyd Mr. Herbert Gimson a Mr. E. Furnival Jones yn Archwilwyr ; Mr. H. Bailey a'r Parchedig F. Cottier (Gorton), yn rheolwyr Trysorfa Pensiynau'r Gweinidogion.

Y PENDERFYNIADAU.—Rhoddir yma'r penderfyniadau ar faterion cyhoeddus heb gais i'w trosi i'r Gymraeg.

EIN CYD-GREFYDDWYR TRAMOR.—That this Annual Meeting of Ministers and Delegates of the General Assembly of Unitarian and Free Churches, profoundly shocked by the full confirmation of the reports of Nazi cruelty to populations in occupied territories, sends a message of heart-felt sympathy and goodwill to former religious associates now liberated from tyranny, and prays that all the world may soon be freed.

DARLLEDU CREFYDDOL.—That this Annual Meeting, etc., in view of the promotion of a new Charter for the British Broadcasting Corporation, calls upon H.M. Government to terminate the control of religious broadcasting by a Religious Advisory Committee composed exclusively of representatives of the orthodox Christian bodies, and to stipulate that our traditional freedom of thought and worship shall be fully recognized in the character of our religious broadcasts.

SYLFAEN HEDDWCH PARHAOL.—That this Annual Meeting, etc., affirms the belief that the establishment of a world order free from insecurity, injustice and war, calls for spiritual, economic and political reconstruction, subordinating sectional interests to the common well-being of all peoples.

It urges that every possible step be taken to extend relief to the liberated populations in their necessity, in recognition of the fact that we are members one of another.

It affirms that moral values must prevail in national and international policies if the sacrifices of this war are to prevent further devastating conflict and social disintegration.

It affirms the urgent need of such international agreement as will encourage economic co-operation and the supremacy of law among the nations, secure relief from the menace and burden of expanding armaments in the post-war world, and lay the foundations of an enduring peace.

DYSGU CREFYDD YN YR YSGOLION DYDDIOL.—That this Annual Meeting, etc., recognizing that the religious instruction required by the Education Act of 1944 is largely under the direction of the local Education Authorities, draws attention to the importance of religious teaching in schools, protests that under agreed syllabuses such teaching will tend to be restricted to orthodox Christianity, and demands for the teaching of religion the same freedom for the teacher that he has in the teaching of other subjects ; urges ministers, congregations and District Associations to keep themselves informed of the development of religious instruction in the State Schools of their localities, and to take such opportunities as present themselves of pressing for a non-sectarian interpretation of the Act, and urges the Council of the General Assembly to organize propaganda to secure these ends.

CYMDEITHAS YR YSGOL SUL.

Cynhaliwyd y Cwrdd blynyddol prynhawn Mercher, Mai 9. Am na allai'r Parchedig J. W. Lee (Taunton) fod yno llywyddwyd gan Dr. Dorothy Tarrant.

CYFRIFON.—I raddau'n foddhaol ond byddai'n dda gan y Trysorydd (Mr. Ronald Bartram) weld y ddyled yn llai. Y mae angen mwy o danysgrifiadau, ac ofnir nad yw'r cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi gwaith yr Ysgolion Sul.

ADRODDIAD.—Ym mhlith pethau eraill cyfeiriodd yr Ysgrifennydd (Parchedig Bertram Lister) at lwyddiant Cirencester lle yr agorwyd ysgol o chwech o blant ond mewn amser byr aeth yn saith saith deg mewn rhif.

ARAITH.—Dywedodd y llywydd am 1945-46, Parchedig Stanley Mossop (Manceinion), i'r Ysgol Sul gychwyn yn adeg y Refoliwshon Diwydiannol. Heddiw, yng nghanol refoliwshon mwy, dywed llaweroedd nad oes gan yr Ysgol Sul ddigon o adnoddau i gwrdd ag anghenion moesol ac ysbrydol yr ifanc. Gwrthodai'r siaradwr dderbyn yr haeriad, ond hawliai fod y cyflwr newydd yn gofyn am fethod newydd. Yng nghanol llawer o ddigalondid, ceir llawer o bethau hefyd sy'n calonogi. Yn natblygiadau newydd yr ysgolion dyddiol fe gawn hér : ni ddylai'r Ysgolion Sul fod ar eu hôl mewn method. Gwaith yr Ysgolion Sul yw dehongli gwerthoedd bywyd, ac felly datguddiant gymeriad a phwrpasau Duw. Y mae angen, medd Mr. Mossop, i'r Gymdeithas hysbysu'r cynulleidfaoedd o bwysigrwydd yr Ysgolion Sul.

TRYSORYDD.—Yn lle Mr. Ronald Bartram, a ymddeolodd wedi dwy flynedd ar bymtheg o wasanaeth, etholwyd Mr. J. C. C. Cooper (Highgate).

PENDERFYNIAD.—Pasiwyd yn unfrydol geisio gan y Gymdeithas Gyffredinol wneud "Religious Education and its kindred problems" yn destun y cyfarfodydd y flwyddyn nesaf.

Y GYNHADLEDD.

Cafwyd cynulliad da hwyrddydd Mercher, Mai 9. Testun y drafodaeth oedd y gyfrol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, *A Free Religious Faith.* Llywyddwyd gan y Prifathro R. V. Holt, golygydd y gyfrol a chadeirydd y Comisiwn ar Athrawiaeth a fu'n paratoi'r gwaith.

Mynegodd Dr. Dorothy Tarrant ddyled y Gymdeithas Gyffredinol i'r Comisiwn a fu'n paratoi'r gwaith. Yr oedd y grynhodeb a geir yn y llyfr yn werthfawr fel adroddiad byr o safbwynt yr Undodwr, a byddai'n dda cyhoeddi'r rhan yma o'r llyfr ar wahân. Gofynnai pwy a fyddai'n debyg o'i ddarllen. Yr oedd tri dosbarth —"ni," aelodau o enwadau eraill, pobl feddylgar y tu allan i'r eglwysi. Apeliai gwahanol rannau'r llyfr at wahanol ddosbarthau. Byddai'r adrannau athronyddol wrth fodd y bobl feddylgar ; apeliai'r adrannau ar sylfeini Cristnogaeth at eraill yn ogystal a ninnau. Cytunai Dr. Tarrant a'r farn fod rhannau o'r llyfr yn anodd. Y mae rhai penodau'n ffynhonnell o ysbrydiaeth, fel y bennod ar "Ddyn a Duw" lle y dadlennir seiliau crediniaeth a chrefydd yr ysbryd, a'r bennod ar "Addoli, Sacramentau, a Gweddi." Cyfeiriodd y siaradwr yn fyr at benodau eraill y gyfrol. Yn y bennod ar "Ystyr Iesu" gwelai safbwynt pwyllog a chadarnhaol, a chyflwynai ein syniad am Iesu fel newydd da i'r oes bresennol.

Credai fod i Iesu le canolog, yr enghraifft bennaf o Dduw'n llefaru wrth ddyn. Arwain hyn i'r gred yn nwyfoldeb pob dyn ac i'r pwysigrwydd o ddilyn Iesu fel ffrind a brawd ac Arglwydd.

Gwendid y llyfr, medd Dr. Tarrant, yw ei ddistawrwydd ar yr Atgyfodiad a gallai roddi lle helaethach i athrawiaeth yr Iawn. "Ein dyledswydd," meddai, "yw cyhoeddi cenadwri'r gyfrol a byw ein credo."

Dywedodd Mr. Charles Mackay (Edinburgh), Llywydd Cymdeithas Undodaidd yr Alban, ac hyd yn ddiweddar Cadeirydd Fabian Society tref Edinburgh, mai hwn yw'r cyhoeddiad pwysicaf o eiddo'r Undodiaid yn ein dyddiau ni. Dymchwel ar unwaith y farn mai peth negyddol yw Undodiaeth. Yn y gyfrol ni cheir haeriad dogmatig, ond anogir y darllenydd i feddwl drosto'i hun. Beirniadaeth gywir o'r llyfr yw mai gwaith "gwŷr y colegau" ar gyfer "gwŷr y colegau" ydyw. Rhaid eto ysgrifennu'r llyfr ar gyfer y dyn cyffredin. Gwnaethpwyd hynny yn y cylch politicaidd —paham na ellir gwneud yr un peth yn y cylch crefyddol?

Dewisodd y siaradwr un testun o'r llyfr, "Oni achubir pawb ni achubir neb." "Dim ond mewn cymdeithas y gellir gweithredu daioni." Dilyn dau beth. Yn gyntaf, rhaid fod gennym y gallu i drosglwyddo ein gweledigaeth i eraill. Yn ail, rhaid newid y drefn gymdeithasol. Drwg y sistem bresennol yw'r atitiwd hunan-geisiol. Mewn trefniant o gymdeithas ar sylfaen hunan-les nid oes le i'r ymdeimlad o'r bywyd cymdogol.

Gwêl y pregethwr y drwg yn yr atitiwd ysbrydol: gwêl y gwleidyddwr y drwg yng nghyfansoddiad cymdeithas. Y mae'r ddau yn anghywir am fod eu gweledigaeth yn rhannol. Rhaid newid yr atitiwd ysbrydol a chyfansoddiad cymdeithas, y mae'r ddau o'r un wead. Apeliai'r siaradwr i'r dyn cyffredin adeiladu trefn ei gymdeithas ar egwyddorion Cristnogol.

Yn y drafodaeth mynegwyd amryw farnau.

[*I'w barhau*].

Gair o'r Amerig.

[Llythyr oddiwrth y Parchedig Stephen H. Fritchman, Golygydd *The Christian Register*, misolyn yr Undodiaid yn yr Unol Daleithiau, at Undodiaid Prydain. Ymddangosodd yn *The Inquirer*. Troswyd, ac argreffir er mwyn ei neges amserol].

Heddiw fflachiodd y gair o SHAEF fod gwrthsefyll y Natsiaid ar ben dros Ewrop gyfan. Daeth yr awr y bu miliynau'n gweddïo amdani. Ysgrifenna pob un ohonom ei nodion golygyddol i ddathlu ystyr y digwyddiad, ond ni eill yr un ohonom anghofio pris ofnadwy y fuddugoliaeth. Yn rhy ddiweddar yr

agorwyd pyrth uffern yn Belsen a Buchenwald o flaen ein llygaid. Y mae beddau newyddion milwyr y Cynghreiriaid yn Yugoslavia a'r Iseldiroedd, yr Eidal a Czechoslovakia yn rhy amlwg ar wyneb y cyfandir i beri i'n calonnau lawenhau—hyd yn oed mewn buddugoliaeth. Yn yr Amerig syrthiodd ein Harlywydd, a gŵyr cenedl am hiraeth na bu ei debyg oddiar y drasiedi yn chwaraedy Ford a drawodd Lincoln yn nydd buddugoliaeth. Y mae miliynau'n cerdded mewn angof ac yn newynnog drwy Ewrop gyfan—*pobl Ddigartref*, ar gofnodion y Cenhedloedd Unedig, rhandâl greulon rhyfel i bob calon dosturiol.

Wrth ystyried y rhagolwg yn yr Amerig teimla llawer ohonom ni Undodiaid fod ein milwriaeth ddinasyddol newydd ddechrau. Ni fu marw Ffasgiaeth gyda diwedd gwarthus Benito Mussolini, ac ni ddifawyd ei grym ar goelcerth Hitler yn Berlin (os gwir y gair).

Bydd Ffasgiaeth fyw cyhyd ag y porthir ei hanian ddrygionus yn Japan, Spaen a'r Argentina ac ymhlith mudiadau'r lleiafrif ym Mhrydain a'r Amerig. Yn awr y dechreuodd brwydr yr heddwch. Adeiledir trefniant i ddiogelu'r byd. Bydd pobloedd y ddaear yn glanhau'r blaned hon o'i gelyn, ac nid ar Alexander ac Eisenhower ond arnom ni sydd gartref y dibyna hyd yr ymdrech a'i chost. Blinder, trachwant, anwybodaeth, sentimentaliaeth, delfrydiaeth ffals—gallant i gyd gynllwyn i fagu Ffasgiaeth yn ein plith. Y mae etifeddiaeth ddrygionus Hitler yn aros. Y mae'r Iddew eto'n wrthrych bygythion ar ystrydoedd Boston. Y mae'r dyn du yn byw mewn ofn yn Detroit. Ar yr unfed awr ar ddeg cyhoedda'r Argentina Ffasgiaidd ryfel yn erbyn yr Echel ac ennill bleidlais yn San Fransisco. Mewn dychryn gwylia trigolion Pwyl y tirfeddiannwyr alltud yn cynllwyn i lindagu rhyddid yn eu senedd yn Warsaw. Os ydyw'r bobl i fyw y mae ein rhyfel ym mhell o'i therfyn.

ER COF.

(Am Evan Davies, Tanyfron, Cribin, a fu farw Ebrill 23, yn 77 oed).

Oerach yw'n byd yr awron—oherwydd
Arwyl cyfaill ffyddlon ;
Chwerw fu rhoi i erw meirwon
Ein hen frawd o Danyfron.

Bu fyw'n dawel heb elyn,—carai lên
Carai lunio englyn ;
A allodd drwy fyw'n ddillyn
Fe gododd ef ei gyd-ddyn.

I Rydygwin—wedi blino—e drodd
At ei dras i huno ;
Er rhoi ei arch yn y gro,—
Nid yw ei enaid yno.

Islan.

Adolygiad.

YR ADWAITH DIWINYDDOL.

C. S. Lewis and some modern theologians. E. George Lee. Lindsey Press. 6d.

Dyma'r ail lyfryn yng nghyfres newydd y Lindsey Press—Religion in a changing world : a Unitarian states his faith. Golygydd yr *Inquirer*, papur wythnosol yr enwad, yw E. George Lee. Ni chaniata maint y llyfr ymdriniaeth fanwl o safbwyntiau, ond yn ei ffordd glir a chryno ei hun trefna'r awdur ei fater, a cheidw yn ddiwyro at ei destun. "Y mae'r hen yn marw, fel y mae'n rhaid iddo farw bob amser mewn crefydd ; y mae'r newydd yn dod yn fyw, fel y mae'n rhaid iddo bob amser ddod yn fyw ; ond y mae'r proses mor gyflym yn y byd heddiw nes gwneud addasau yn anodd." Dyna'r cyfwng, medd yr awdur. Gan rai diwinyddion y mae golwg glir ar yr anawsterau, ac y maent yn gynorthwyol. Ceisia diwinyddion eraill, yn enwedig yn adeg y rhyfel, adgyfodi'r "marw." Yn eu bloedd, a charant floeddio, clyw'r awdur no dyn ansicrwydd. Y mae'r rhain yn wir bwysig am fod y floedd yn deffro clyw'r torfeydd, ac i raddau helaeth distawant y rhai sy'n ceiso canoli rhwng yr hen a'r newydd.

Cymerir yn enghraifft o'r "canolwyr" waith pwysig grwp o ddiwinyddion yn yr Eglwys Wladol a gyhoeddwyd yn 1937, *Report on Doctrine*. Ymgais yw'r adroddiad hwn i addasu diwinyddiaeth y gorffennol at y presennol. I bob pwrpas y mae'r adroddiad yn farw, ac wedi ei gladdu yn ddistaw. Ni chlywir ac ni welir cyfeiriad ato. Y mae'n amheus a ddangosodd y diweddar Arches gob Temple yn ei areithiau—ac nid oeddynt i gyd ar faterion cymdeithasol—iddo dreulio pymtheg mlynedd i weithio ar yr adroddiad hwn.

Cydnebydd yr adroddiad y proses sy'n amlwg heddiw yn y byd crefyddol, ond y gwir yw y rhai sy'n cau eu llygaid ar y proses sydd yn awr yn llywodraethu'n feddyliol y rhan fwyaf o ganghennau'r Eglwys.

Amlwg yw tueddiadau *reactionary* Cristnogaeth y B.B.C. Ni wrandawir ar foderniaid. Ar ddiwinyddiaeth heddiw y mae'r adwaith yn amlwg. Ceisia awdur y llyfryn hwn ddangos effeithiau'r adwaith ar dri llyfr diweddar, ac i'r llyfrau hyn y mae cylch helaeth o ddarllenwyr,—*The Problem of Pain* (C. S. Lewis, *Christian Doctrine* (Dr. J. S. Whale), *The Doctrine of the Trinity* (Canon L. Hodgson).

Y peth pwysig yn llyfr C. S. Lewis, sydd bellach yn adnabyddus oherwydd ei sgyrsiau ar y Radio, yw ei fethod i argyhoeddi'r darllenydd. "Shock, tactics" dyna'i fethod, ac nid y defnydd priodol o reswm. Yn wir, gwrthodir rheswm, ac aberthir cywirdeb argiwment. Dyry Mr. Lee amryw enghreifftiau o hyn.

Yn perthyn i'r un adwaith y mae Dr. J. S. Whale, cyn-brifathro Coleg Cheshunt a dyn o ddylanwad yng nghylchoedd Annibyniaeth Ymdrinia Mr. Lee ag un o brif haeriadau'r llyfr—"Cyffesir gan Gristnogion ym mhob man mai parhad o'r Ymgnawdoliad yw'r Eglwys." Beth yw'r Eglwys fel sefydliad ond creadigaeth *dynion duwiol* ? Y mae mynd ym mhellach na hyn yn golygu gwadu profiad crefyddol dyn heddiw. Ar yr "Adgyfodiad" a'r "Drindod" y mae Dr. Whale yn gwrthod rheswm, ". . . thought obviously

approaches a limit where speculation is purposeless, if not impossible." Paham yr "amhroffidiol" a'r "amhosibl?" Oni ellir olrhain tyfiant hanesyddol athrawiaeth y Drindod? Yr unig reswm dros ddweud fod ystyriaeth o'r athrawiaeth yn amhroffidiol yw na all ystyriaeth wneud pen na chynffon ohoni. Gellir galw natur Duw, y mae'n wir, yn ddirgelwch, ond dirgelwch sy'n croesawu ymofyniad dilyfethair ydyw. Y mae dweud wrth reswm, fel y dywedodd y brenin hwnnw wrth y llanw, "Hyd yma'n unig y deui," yr un fath yn hollol ag anwybyddu cyraeddiadau mwyaf gwerthfawr y byd meddyliol heddiw. Dihangfa i'r gorffennol ydyw, ac nid i'r gorau yn y gorffennol.

Gwahanol yw method Canon Hodgson. Ei bwrpas yw cadarnhau'r athrawiaeth glasurol am y Drindod. I wneud hyn pwysleisia syniad *neilltuol* am ddatguddiad. Oni fydd gan ddyn y datguddiad hwn (a rhodd *arbennig* oddiwrth Duw ydyw) ni all byth adnabod Duw. Perygl y syniad hwn yw gwadu i ddyn yr hawl i ewyllysio a'i roi wrth drugaredd Bod mympwyol.

Eglur fod Mr. Lee wedi dangos tueddiadau amlwg diwinyddiaeth heddiw. Ond nid dyna'r cyfan ar y testun Odditan yr wyneb y mae tueddiadau, fel y bu ym mhob cyfnod, i'r cyfeiriad arall hefyd, tueddiadau blaenfynedol. A'r rhain yw'r gobaith fel erioed am ddyfodol yr Eglwys. Cyhyd ag y gall hi helpu i ddadrys pob cyfwng fel y daw a'i wneud yn ymchwil am wybodaeth helaethach am Dduw y mae'r Eglwys yn fyw. I wneud hynny rhaid wrth feddwl rhydd. Caethiwo neu ddibrisio'r meddwl yw sail pob tyranniaeth ddiwinyddol.

Dylai'r llyfr hwn—yn wir, y gyfres yn gyfan—fod wrth law pob Undodwr.

J.D.J.

A GOLLO EI EINIOES YNG NGWASANAETH EI GYD-DDYN A'I GAIFF.

Sundar Singh, un o bregethwyr enwog yr Eglwys Gristnogol yn yr India, sy'n adrodd yr hanes am yr arfer cyffredin hwn ymhlith teithwyr yn y wlad honno. Pan fydd y teithiwr am ei gadw ei hun yn wresog yn oerfel mynyddoedd gogledd yr India, y mae'n cario marwor fflamgoch mewn pot bychan mewn basged. Rhwyma glwtyn am y fasged, a charia hi dan ei fraich. Yr oedd tri dyn unwaith yn cyd-deithio i un o leoedd cysegredig y wlad, pob un yn cario llond basged o wresogrwydd. Ar eu taith digwyddasant ar gwmni bychan a oedd bron â sythu yn yr oerfel. Agorodd un o'r teithwyr ei fasged a chyneuasant dân fel y gallai pob un ohonynt wresogi wrtho. Trwy'r weithred hon achubwyd bywydau'r cwmni. Wedyn pan ddisgynnodd y tywyllwch ni allai'r cwmni weld eu ffordd, ac fe agorodd teithiwr arall ei fasged er mwyn cynneu tors. Yng ngolau'r tors cerddasant ymlaen yn ddiogel. Gwawdiai'r trydydd teithiwr y ddau arall am wastraffu tân mor werthfawr, ac fe'i ganmolai ei hun am iddo fod mor gynnil a'i dân. Yna gofynnodd y ddau arall iddo am ddangos ei dân. Agorodd yntau ei fasged, ond yn y pot nid oedd ond lludw oer. Rhoddodd un teithiwr wresogrwydd i eraill; rhoddodd y teithiwr arall oleuni. Ceisiodd y trydydd teithiwr gadw'r tân yn gyfangwbl iddo'i hun, ond nid oedd o un defnydd iddo.

Marwgofion.

Mai 3, bu farw Mrs. MARY DAVIES, Bank Villa, Cribyn, yn 79 oed. Gwraig dawel, ddiymhongar ydoedd a wnâi ei dyletswyddau heb ymyrryd ar neb. Bu ers tro yn analluog i fyw wrthi ei hunan a chafodd ymgeledd parod yn ei chwaer yng Nghoedgleision, Betws. Claddwyd hi ym mynwent Capel Cribyn ar Fai 15. Gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Evans, J. Islan Jones, W. H. Morgan (Ficer Betws), ac A. J. Martin. Canwyd yr organ gan Mrs. Lloyd, Rhydybennau.

Bu farw Mrs. MARGARET DAVIES, Troedyrhiw, Llanwnen, yn 74 mlwydd oed, ar Fai 9, yn Ysbyty Aberystwyth, ar ôl bod o dan driniaeth y llawfeddyg. Collodd ei phriod yn gynnar iawn ac yntau ond 23 oed, a hithau wedi ei gadael yn weddw â thri o blant bach i'w magu. Fy gymerodd y cwbl yn yr ysbryd iawn. Ymdrechodd yn ddiwenwyn a didrachwant mewn ysbryd gwasanaeth, ac fe'i gwelodd hi'n bosibl i fod yn garedig ac yn gymwynasgar. Claddwyd hi ym mynwent Capel y Groes, a gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, A. J. Martin, D. Evans, Stanley G. Thomas, Cwrtnewydd, a J. Davies, Ficer Cribyn. Canwyd yr organ gan Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol.

Bu farw Mrs. RACHEL DAVIES, Rhydyfran Cottage, Cribyn ar Fai 13, yn 84 mlwydd oed. Yr oedd yn un o drigolion hynaf yr ardal. Gwraig hoff, serchog ydoedd, a gadwodd ei chynheddfau'n hynod dda yn ei henaint. Gwasanaethwyd yn ei hangladd yng Nghapel Cribyn gan ei gweinidog, y Parch. Emrys Evans, Troedyrhiw, a'r Parchn. D. Evans, S. G. Thomas, Brynhafod, Lewis Williams ac A. J. Martin. Canwyd yr organ gan Lloyd Jones, Frongelyn.

Nodion yr Eglwysi.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N.1., ar y Sul cyntaf o bob mis am 4.15 o'r gloch. Balch iawn gennym weled mwy yn ein gwasanaeth ym mis Mai, a phleser mawr oedd gweled a chlywed ein cyfaill annwyl, y Parch. J. Tyssul Davies, B.A., unwaith eto. Rhoddodd i ni yn ei bregeth gipolwg ar rai o'r dylanwadau pwysig yn ei fywyd yn ystod ei yrfa weinidogaethol. Mae wedi treulio hanner can mlynedd ym mhwlpudau'r Undodiaid ac y mae yn ieuanc ei feddwl o hyd. Cyfarfu ein cadeirydd â'r Parch. J. A. Pearson mewn cyfarfod yn Gordon Square yn ddiweddar. Gobeithio y cawn ei weled yn un o'n gwasanaethau yn ystod yr haf yma. Cydymdeimlwn yn fawr iawn a Miss Jane Davies ar farwolaeth ei thad, ac hefyd a Mr. Vaughan Lewis yn ei afiechyd. Gyda dychweliad heddwch yn Ewrop gobeithio y bydd ein cynulleidfa yn cynhyddu mewn nifer ac y deuwn yn ddigon cryf i feddwl am adeilad i ni ein hunain, a gwasanaethau yn fwy aml ac ambell sosial a chyfarfodydd eraill yn awr ac yn y man. Wedi ymdrechu i gadw'r eglwys yn fyw trwy flynyddoedd tywyll iawn rhaid ymdrechu yn galetach eto i wneud ein heglwys yn sefydliad dylanwadol ymhlith Cymry Llundain. Trefn y dyfodol : Gorffennaf : Y Parch. E. O. Jenkins ; Awst : Y Cadeirydd ; Medi : Y Parch. Aubrey Martin, B.A. ; Hydref : Y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D. ; Tachwedd : Y Parch. E. D. Davies ; Rhagfyr : Y Parch. D. Jacob Dafis, B.A.

CYMANFA YSGOLION SUL.

Ar Fai 18, cynhaliodd Ysgolion Sul Rhydygwin, Ciliau Aeron, Cribyn, Capel y Bryn, a Chapel y Cwm eu Cymanfa flynyddol yn Rhydygwin. Dychwelwyd i'r

hen drefn o ddechreu'r Gymanfa yn y bore. Ar ôl cyflawni'r rhan arweiniol gan y Parch. Aubrey J. Martin, B.A., adroddodd ysgolion Rhydygwin a Chiliau Aeron, Luc xvi., a holwyd hwy gan y Parch. S. Evans Bowen. 'Rôl gorffen y rhan ddefosiynol yn y prynhawn gan y Parch. S. E. Bowen, holwyd y plant gan Miss Evans, Blue Bell, Cwrtnewydd. Gwnaeth Miss Evans a'r plant eu gwaith yn dda. Yna adroddodd ysgolion Cribyn, Capel y Bryn a Chapel y Cwm, Luc xviii., a holwyd hwy gan y Parch. Lewis Williams. Gwir nad yw yr ysgolion mor lluosog ag oeddynt flynyddoedd yn ôl, ond yr oeddynt yn lluosocach nag y disgwyliem iddynt fod, ac yr oedd mwy o ôl llafur ar eu gwaith nag a feddyliem. Teimla pawb i ni gael cymanfa dda. Un peth nodedig a gwerthfawr iawn ynglŷn a'r gymanfa oedd y naws hyfryd a oedd i'w deimlo drwy'r dydd. Gwnaeth pobl Rhydygwin eu gwaith yn foddhaol iawn drwy ddarparu cyflawnder o ymborth i ddiwallu pawb.

STRAEON CEFN GWLAD.

A glywsoch chwi'r hen stori am Yswain y Pentre Mawr gynt?

Wel, dyma hi
mewn
llyfryn gwych
isel ei bris.

Yn yr un llyfr hefyd
ceir Rhamant

"Bwgan Camfa
Coed yr Ynys."

Pwy sy'n cofio Blôr y Pentre
A'r barddonwr Robin Ddu—
Hen arwron ofergoeledd
Y Dyserthiaid oes a fu?
Pwy sy'n cofio'r gwesyn diog
Huwcyn Morgan o Ben Rhôs,
A fu'n cysgu yn lle gwylio
Y ceiliogod yn y nos?

Beth am Fwgan Coed yr Ynys—
Ysbryd yr hen ŵr Magro—
A fu'n trwblo lawer noson
Ar ryw gamfa yn y fro?
Ceir yr hanes prudd, digrifol
Yn y gyfrol ddifyr hon
Mewn rhigymau tra deniadol
Ac mewn cywair bywiog llon

"DWY STORI
mewn
RHIGWM."

gan Dewi Hiraddug.

Gofynnwch i'ch
llyfrwerthwr
1/6) amdano. (1/6
(Lliain 2/6)



Gwasg Gymraeg Foyle, 121 Charing Cross Road, London, W.C.2

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.